



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Bancffosfelen,
Bancffosfelen,
Llanelli,
Sir Gaerfyrddin.
SA15 5DR**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd, 2011

gan

Dr David Gareth Evans

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Ysgol gynradd ddwyieithog yw Ysgol Bancffosfelen sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3-11 oed ac sydd wedi ei lleoli tua dwy filltir o Bontyberem yng Nghwm Gwendraeth. Mae mwyafrif y disgyblion yn byw yn y pentref neu'r ffermydd cyfagos.

Mae niferoedd y disgyblion wedi bod yn sefydlog dros y dair mlynedd ddiwethaf ac, ar hyn o bryd, mae 45 disgyblion llawn amser ar y gofrestr. Bu newidiadau yn y staffio ers yr arolygiad diwethaf gydag athrawes newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, mae athrawes cyfnod allweddol 2 yn gweithio'n rhan amser a chyflogwyd athrawes 0.3 ychwanegol ar gyfer cyfnod allweddol 2 ers Medi 2011.

Derbynnir plant i'r ysgol yn llawn amser ar ddechrau'r tymor y cânt eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae'r disgyblion yn cynrychioli'r ystod gallu llawn ac mae eu cyrhaeddiad yn amrywio'n fawr pan ddechreuant yn yr ysgol.

Cymraeg yw'r brif iaith a siaredir yn y cartref gan oddeutu 50% o'r disgyblion, ond disgwylir i bob disgybl fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae amgylchiadau'r disgyblion yn amrywio gyda chanran fechan, sef 3%, yn derbyn cinio rhad; ffigwr sydd yn bell o dan y ffigurau cenedlaethol a lleol. Does neb yn perthyn i grŵp ethnig lleiafrifol. O dro i dro ceir hwyrdyfiaid yn ymuno â'r ysgol o ardaloedd ac ysgolion Saesneg eu hiaith. Mae tua 30% o ddisgyblion yn derbyn darpariaeth addysg ychwanegol, ac mae'r ffigwr yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2005.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bancffosfelen yw £3,957, sy'n cymharu ag uchafswm o £17,415 ac isafswm o £3,014 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 38fed uchaf o'r 114 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol;
- bod rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac mae eu hymddygiad a'u hagweddau tuag at ddysgu yn dda;
- bod ansawdd yr addysgu yn dda; a
- bod berthynas rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn dda.

Fodd bynnag:

- mae'r tueddiadau yn asesiadau diwedd cyfnodau allweddol dros gyfnod yn isel; ac
- mae anghysondeb yn y safonau a gyflawnir ar draws yr ysgol.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod arweinwyr yr ysgol yn frwdfrydig ac yn meddu ar ddisgwyliadau uchel;
- bod holl aelodau staff yr ysgol yn rhannu'r un weledigaeth ar gyfer cynnal a chodi safonau;
- bod trefniadau hunan-arfarnu yn dechrau cael effaith glir ar ddeilliannau; a
- bod yr ysgol yn adnabod a blaenoriaethu meysydd i'w gwella'n effeithiol.

Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau llythrennedd, yn arbennig darllen ac ysgrifennu, yng nghyfnod allweddol 2;

A2 darparu tasgau mwy heriol ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog;

A3 parhau i ddatblygu'r arferion asesu gorau ar draws yr ysgol; a

A4 gwella dealltwriaeth y llywodraethwyr o berfformiad yr ysgol a'u gallu i weithredu fel cyfeillion beirniadol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2, yng nghyfnod allweddol 1, ac ar ddiwedd Blwyddyn 6, yng nghyfnod allweddol 2, gyda gofal oherwydd bod niferoedd bychan mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall. Oherwydd bod cyn lleied o ddisgyblion yn y carfannau, mae'n anodd gweld unrhyw batrwm clir dros gyfnod parthed y disgyblion hynny sy'n derbyn pryddau bwyd am ddim.

Cymedrol yw lefelau cyfartalog y plant wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol. Er hynny, mae rhan fwyaf ohonynt yn cyflawni'r deilliannau a ddisgwylir am eu hoed erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Erbyn hyn, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da, ond nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal yn y dosbarthiadau ag y dylent.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae disgyblion yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 wedi cyflawni ar lefel isel o gymharu â chyfartaleddau lleol, cenedlaethol, teuluol ac o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2011 cynyddodd perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2, heblaw am y Gymraeg. Yn gyffredinol, nid oes gwahaniaethau amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched ac mae'r tueddiad yn amrywio dros amser.

At ei gilydd mae medrau Cymraeg disgyblion yn datblygu'n dda erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall ac yn ymateb yn gywir i amrywiaeth dda o gwestiynau a chyfarwyddiadau syml. Maent yn darllen yn dda ac yn paratoi darnau ysgrifenedig cywir yn ôl eu hoed a'u gallu.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae safonau llythrennedd rhan fwyaf y disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ddigonol. Mae mwyafrif ohonynt yn siarad yn briodol, ond heb fod yn estynedig. Mae lleiafrif y disgyblion yn tueddu i droi i siarad Saesneg mewn gwaith grŵp a gyda chyfoedion. Ar y cyfan mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n addas, ond maent yn darllen yn ddi-hyder ac mae lleiafrif yn darllen heb fynegiant priodol. Nid yw medrau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn effeithiol yn gyson gan nad ydynt yn ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm.

Gwna'r disgyblion ddefnydd effeithiol o rifedd ar draws y cwricwlwm. Nid yw data diwedd y ddau gyfnod allweddol yn adlewyrchu'r safonau mewn rhif a welir yn llyfrau disgyblion. Mae safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda ar draws yr ysgol gyfan. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn defnyddio'r we yn hyderus i wneud ymchwil am yr Eidal ac yn defnyddio Skype i siarad ag ysgol yn y wlad honno.

Mae'r disgyblion yn elwa o'r profiadau a gyflwynir iddynt werthfawrogi yr amgylchedd lleol. Nid yw eu hymwybyddiaeth o awduron Cymreig gystal.

Lles: Da

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch. Mewn holiaduron a thrwy drafodaethau mae pob disgybl yn dweud ei bod yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae pob rhiant yn cytuno.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn barod i gymryd rhan mewn trafodaethau. Mae perthynas dda ganddynt gydag athrawon ac oedolion eraill sy'n cynorthwyo. Meddant fedrau cymdeithasol da a dangosant ofal da am ei gilydd. Mae pob disgybl yn gwrtais iawn.

Mae disgyblion ynghlwm wrth ystod eang o weithgareddau cymunedol, gan gynnwys eisteddfodau, perfformiadau a gweithgareddau chwaraeon.

Mae'r ganran presenoldeb am y tri thymor cyn yr arolygiad yn 94.74% ac mae'r ysgol yn perfformio'n uwch na chanrannau lleol a chenedlaethol. Mae ffigurau prydlondeb yn dda iawn.

Cefnogir elusennau lleol a chenedlaethol yn gyson. Mae'r disgyblion yn gweithio'n dda i gefnogi elusennau, gan gynnwys 'Plant Mewn Angen', 'Operation Christmas Child', 'Apêl MacMillan', Tŷ Hafan a Barnados.

Mae'r Cyngor Ysgol yn sefydlog ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar benderfyniadau.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r athrawon yn darparu ystod o brofiadau dysgu sydd, ar y cyfan, yn cyfarfod yn llwyddiannus ag anghenion llawer o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn cwrdd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae cynlluniau'r ysgol ar gyfer ymestyn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda, gan gynnwys gwneud defnydd mwy o'r ardal allanol ar gyfer profiadau dysgu pwrpasol. Mae'r ddarpariaeth ffoneg, sy'n gymharol newydd, yn cael effaith dda ar ddatblygiad llythrennedd y disgyblion.

Mae ystod o ymwelwyr, a'r ymweliadau a drefnir ar gyfer y disgyblion, yn cefnogi ac yn cyfoethogi eu profiadau yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn elwa o ymweliadau sy'n cyd-fynd â'u themâu, gan gynnwys Llancaiach Fawr, a pherfformiadau gan gwmnïau theatr broffesiynol fel Cwmni Theatr Arad Goch.

Ar y cyfan, mae'r cynllunio manwl yn datblygu dilyniant a datblygiad da mewn medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg yn datblygu'n addas ac yn dechrau gosod seiliau cadarn ar gyfer datblygu medrau iaith y disgyblion. Mae'r staff

i gyd yn cynnig modelau iaith da sy'n dechrau hyrwyddo datblygiad llythrennedd yn fwy effeithiol.

Mae'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gref o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn hyrwyddo adnabyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol ac am Gymru fel gwlad a chenedl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg datblygiad cynaliadwy yn dda. Sicrha'r ysgol fod y disgyblion yn derbyn cyfleoedd da i ymestyn eu gwybodaeth o faterion yn ymwneud â dinasyddiaeth fyd-eang trwy'r cwricwlwm a gweithgareddau diwylliannol ac elusennol.

Addysgu: Da

Yn y gwersi lle gwelir elfennau da a rhagorol mae'r athrawon yn ysgogi ac meant yn herio disgyblion trwy gwestiynu effeithiol iawn. Mae'r athrawon yn sicrhau sylw yr holl ddisgyblion drwy'r amser ac maent yn cael eu hysgogi i'r eithaf. Defnyddir amrywiaeth o arddulliau addysgu yn effeithiol iawn i ysbrydoli cymhellant y disgyblion ac mae defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn gryfder mawr yn yr addysgu, gydag enghreifftiau ardderchog.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol yn rhan fwyaf y gwersi ac yn ymateb yn briodol i anghenion y disgyblion. Cyfeirir at ddysgu blaenorol ac adeiladir ar y profiadau hyn. Mae defnydd effeithiol yn cael ei wneud o gwestiynu heriol i sicrhau cynnydd y disgyblion ac i wneud iddynt feddwl drostynt eu hunain. Mae'r athrawon yn ceisio hybu annibyniaeth y disgyblion mewn sawl agwedd o'r cwricwlwm ac mae gweithgareddau wedi eu gwahaniaethu'n briodol.

Yn y gwersi lle nad yw'r addysgu cystal nid yw'r athrawon yn cynllunio yn ddigon manwl ar gyfer ystod gallu'r disgyblion ac nid yw'r gwaith yn ddigon heriol ar gyfer y rhai mwyaf galluog.

Mae'r cymorthyddion dosbarth yn rhoi cefnogaeth dda i'r holl ddisgyblion, ac maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'r athrawon dosbarth er mwyn asesu cynnydd y disgyblion. Ar y cyfan mae'r marcio yn addas, ond nid yw'r sylwadau bob amser yn nodi'r hyn sydd ei angen er mwyn gwella. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n addas ac mae bron pob disgybl yn ymwybodol o'u targedau.

Mae system tracio sirol newydd yn dechrau crynhoi cynnydd disgyblion ac mae'r ysgol eisoes yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn briodol i gynorthwyo grwpiau targed o ddisgyblion. Cynigir gwybodaeth i rieni am gyflawniad a chynnydd eu plant ar ffurf adroddiad blynyddol ac mewn dau gyfarfod ffurfiol. Maent yn datgan fod yr adroddiadau yn eglur ac yn cynnig targedau ar gyfer gwelliant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a hapus ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer y gofal bugeiliol yn gadarn. Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu disgyblion. Ceir gweithdrefnau clir i ddelio â bwlio a gwahaniaethu ar sail hil neu anabled.

Mae gan y staff wybodaeth fanwl am amddifadedd cymdeithasol ac anawsterau academaidd ac emosiynol disgyblion unigol. Mae'r ysgol yn barod i wrando arnynt ac i'w helpu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol wedi ei chynllunio'n effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Caiff anghenion dysgu'r disgyblion eu hadnabod yn fuan gan yr athrawon, ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau arbenigol er mwyn rhoi cefnogaeth a hybu datblygiad y disgyblion hyn.

Mae cynlluniau addysgu unigol o ansawdd da. Cynhelir adolygiadau cynnydd yn rheolaidd, sy'n cynnwys cyfleoedd i'r disgyblion fesur eu cynnydd eu hunain mewn perthynas â'u targedau..

Mae'r trefniadau pontio rhwng blwyddyn 6 a'r ysgol uwchradd yn effeithiol.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ei hethos gyfeillgar, gweithgar a chynhwysol, sydd yn seiliedig ar gefnogaeth a pherthynas gadarnhaol, yn un o gryfderau'r ysgol. Ymdrinnir â materion cyfleoedd cyfartal a materion parthed amrywiaeth a chydraddoldeb ym mywyd yr ysgol yn briodol, ac mae'r trefniadau cadarn sydd yn bodoli yn sicrhau ymddygiad da iawn ar draws yr ysgol.

Mae safle eang yr ysgol yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol ar gyfer cyfoethogi profiadau chwarae a dysgu. Mae'r ardd yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol i dyfu a gwerthu llysiau. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn fawr eu maint gydag adnoddau digonol ar gyfer dibenion y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn defnyddio ei hadeiladau yn effeithiol iawn; mae arddangosfeydd deniadol a helaeth mewn ystafelloedd dosbarth a mannau cymunedol yr ysgol yn cefnogi dysgu'r disgyblion ac yn dathlu eu cyflawniadau yn dda. Mae datblygiadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn cyfoethogi profiadau dysgu yn llwyddiannus.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
--

Da

Arweinyddiaeth: Da

Mae rheolaeth y pennaeth o faterion dydd i ddydd yn effeithiol. Mae ganddo ymroddiad cryf i'r ysgol ac i les disgyblion sy'n sicrhau darpariaeth gyfoethog o brofiadau iddynt a chreu a chynnal ysgol hapus. Yn ddiweddar, mae sylw priodol wedi bod ar ddehongli data er mwyn pennu targedau ar gyfer cyraeddiadau'r disgyblion.

Cydweithia'r staff yn agos â'i gilydd i greu ethos gadarnhaol. Mae'r swydd-ddisgrifiadau yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r staff. Defnyddir arbenigedd staff yn effeithiol i sicrhau darpariaeth a chynhaliaeth dda i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i reoli perfformiad a chysylltir deilliannau'r broses yn dda â blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol.

Mae blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel datblygu'r Cyfnod Sylfaen a chynhwysiad, yn derbyn sylw da.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mynychant yr ysgol fel unigolion o bryd i'w gilydd, ond llai datblygedig yw eu rôl yn monitro safonau a'r ddarpariaeth. Mae hwn yn agwedd i'w wella.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau i adolygu holl elfennau ei gwaith dros gylch amser. Mae'r adroddiad hunan-arfarnu yn rhoi sylw priodol i ddadansoddiadau data a deilliannau gweithdrefnau monitro. Rhoddir ystyriaeth lawn i arfarniadau parhaus o les disgyblion. Rhoddir ystyriaeth hefyd i farn y disgyblion, rhieni a'r awdurdod lleol. Mae'r adroddiad hunan-arfarnu yn rhoi barn yr ysgol ar feysydd i'w datblygu yn ddigon eglur.

Mae mwyafrif y blaenoriaethau gwella'r ysgol yn cysylltu'n glir â'r cynllun datblygu ysgol. Er enghraifft, mae codi safonau llythrennedd, a datblygu gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu wedi eu hadnabod fel dau o'r blaenoriaethau cyfredol. Mae strategaethau i gyfarfod â'r gwelliannau yn cael eu hadnabod. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o weithdrefnau, gan bennu cyfrifoldeb arweiniol aelodau staff. Maent hefyd yn cynnwys dangosyddion llwyddiant, amserlenni penodol a chofnod o'r adnoddau a glustnodwyd.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Mae trefniadau er mwyn i'r athrawon arsylwi gwersi uniongyrchol wedi eu sefydlu ac mae deilliannau'r drefn wedi dylanwadu'n llawn ar brosesau hunan-arfarnu'r ysgol. Mae'r ysgol wedi dechrau manteisio ar ei hymglymiad mewn cymuned ddysgu broffesiynol ag ysgolion cyfagos i ddatblygu strategaethau i godi safonau.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol ac adeiladol gyda rhieni a gofalwyr. Mae cymdeithas rhieni'r ysgol yn grŵp gweithgar sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae cysylltiadau da, a threfniadau trosglwyddo pwrpasol, rhwng yr ysgol ac ysgolion uwchradd yr ardal ac fe drefnir nifer o weithgareddau pontio effeithiol. Ffurfiwyd cymunedau dysgu proffesiynol da gyda phump ysgol cyfagos ac mae'r trefniadau ar gyfer safoni a chymedroli asesiadau diwedd cyfnod allweddol athrawon yn effeithiol. Mae'r bartneriaeth â'r Cylch Meithrin ar safle'r ysgol yn dda. O ganlyniad mae'r plant sy'n trosglwyddo yn setlo'n hawdd a buan i fywyd ysgol gynradd.

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau buddiol gyda'r gymuned, cwmnïau theatr, cyflogwyr, grwpiau elusennol a sefydliadau eraill o fewn yr ardal leol a thu hwnt. Mae'r ystod eang o brofiadau sy'n deillio o hyn, yn gynyddol trwy gyfrwng y Gymraeg, yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd ei pherthynas gyda gwasanaethau perthnasol yr awdurdod lleol ac mae'n cydweithio â hwy yn effeithiol.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Yn gyffredinol, gwneir defnydd priodol o amser, profiad ac arbenigedd y staff ac mae'r cydweithio rhwng athrawon a staff sydd yn cefnogi dysgu yn dda. Mae trefniadau effeithiol mewn lle i adnabod anghenion datblygu staff ac fe wneir defnydd priodol o amser paratoi, cynllunio ac asesu.

Mae gan y disgyblion ystod eang o adnoddau dysgu o ansawdd da. Yn gyffredinol, mae rheolaeth ariannol yn dda ac mae'r penderfyniadau perthnasol wedi eu seilio ar anghenion gwella. O ystyried ei deilliannau mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian o ran y defnydd a wneir o'r gyllideb a ddyrannwyd iddi.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2, yng nghyfnod allweddol 1, ac ar ddiwedd Blwyddyn 6, yng nghyfnod allweddol 2, gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall. Oherwydd bod cyn lleied o ddisgyblion yn y carfannau, mae'n anodd canfod unrhyw batrwm clir parthed y disgyblion hynny sy'n derbyn pryddau bwyd am ddim dros gyfnod.

Yng nghyfnod allweddol 1, yn gyffredinol, mae canlyniadau asesiadau athrawon mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn bell o dan y cyfartaleddau cenedlaethol a lleol dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd y dangosydd pwnc craidd, sef canran y disgyblion sy'n ennill o leiaf lefel dau mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, hefyd yn is na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol dros y tair blynedd diwethaf. Pan gymherir canlyniadau cyfnod allweddol 1 gydag ysgolion eraill tebyg, gan ddefnyddio'r dangosydd cinio am ddim, roedd canlyniadau Cymraeg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd fel arfer yn y pedwerydd chwarterel dros y pedair blynedd diwethaf.

Pan gymherir gydag ysgolion o'r un teulu, mae canlyniadau yn y tri phwnc craidd a'r dangosydd pwnc craidd yn gyffredinol wedi bod ymhell o dan gyfartaledd y teulu am bedair blynedd. Mae nifer y disgyblion enillodd y lefel 3 uwch yn y pynciau craidd hefyd yn is o lawer na chyfartaleddau'r teulu. Nid oes patrwm amlwg ym mherfformiad bechgyn a merched dros gyfnod o amser.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r patrwm yn debyg i gyfnod allweddol 1 dros y pedair blynedd diwethaf. Mae canlyniadau Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn is o lawer na'r cyfartaleddau cenedlaethol, lleol a rhai y teulu o ysgolion. Pan gymherir canlyniadau cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion eraill tebyg, gan ddefnyddio'r dangosydd cinio am ddim, mae canlyniadau Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd fel arfer yn y pedwerydd neu'r trydydd chwarterel dros y bedair blynedd diwethaf. Effeithiwyd ar ganlyniadau cyfnod allweddol 1 a 2 yn gyffredinol gan nifer y disgyblion gydag anghenion addysg ychwanegol yn y grwpiau Blwyddyn 2 a 6. Nid oes patrwm amlwg ym mherfformiad bechgyn a merched dros gyfnod o amser.

Pan gymherir gyda'r teulu o ysgolion, mae canlyniadau'r pynciau craidd a'r dangosydd pwnc craidd yn gyffredinol wedi bod yn is na'r cyfartaleddau teulu am y tair blynedd diwethaf, heblaw am 2011. Mae nifer y disgyblion sy'n ennill y lefel 5 uwch hefyd wedi bod yn is o lawer na'r cyfartaleddau cymharol yn ystod yr un cyfnod.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Dychwelwyd 14 o holiaduron gan y rhieni ac mae pawb yn fodlon iawn â'r ysgol. Dywedant fod eu plant yn hoffi ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae pawb yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod y disgyblion yn cael eu parchu, eu trin yn deg a bod yr ysgol yn eu datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Hefyd, mae pob rhiant yn teimlo bod yr addysgu yn dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd priodol yn yr ysgol. Mae'r rhieni i gyd yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol ac i wneud awgrymiadau neu godi problem. Credant bod yr ysgol yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae pob un o'r farn bod yr ysgol yn cael ei threfnu yn dda gyda 79% yn meddwl ei fod yn cael ei threfnu yn dda iawn. Saith y cant yn unig sy'n dweud nad ydynt yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Dychwelwyd 24 o holiaduron. Mae'r dysgwyr yn teimlo'n gadarnhaol dros ben am eu hysgol. Mae pob un yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yno ac yn meddwl bod yr ysgol yn ymdrin â bwlio'n dda. Mae pob un yn gwybod gyda phwy y gallant siarad os ydynt yn poeni neu os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd. Mae pob un o'r dysgwyr yn credu bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae pob un yn teimlo bod plant eraill yn ymddwyn yn dda. Mae'r dysgwyr i gyd yn datgan eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach. Mae pob un o'r farn bod y gwaith cartref yn eu cynorthwyo i wella eu gwaith yn yr ysgol a bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Dr David Gareth Evans	Arolygydd Cofnodol
Mr Enir Rees Morgan	Arolygydd Tîm
Mr Dylan Jones	Arolygydd Lleyg
Mrs Helen Griffiths	Arolygydd Cymheiriaid
Mr Glenn Evans	Enwebai'r Ysgol

Mae'r testun isod ar gyfer adroddiadau arolygiadau ysgolion a gynhelir yn unig – yn achos sectorau eraill, dylech roi gwybodaeth berthnasol ynghylch cefndir a sail ddeddfwriaethol yr arolygiad yn ei le

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn

(www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11